# Atodiad 1

# Crynodeb o Droseddau Treftadaeth Penodol ar gyfer Asedau Treftadaeth Dynodedig

## Adeiladau Rhestredig

### Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 –

Adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig yw Adeiladau Rhestredig, sy'n ymddangos ar restrau a luniwyd neu a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr neu Weinidogion Cymru yng Nghymru. Mae adeilad rhestredig yn cynnwys yr adeilad sy'n ymddangos ar y rhestr ac unrhyw wrthrych neu strwythur sy'n sownd i'r adeilad, ac unrhyw wrthrych neu strwythur yng nghwrtil yr adeilad sydd, er nad y"n sownd i'r adeilad, wedi ffurfio rhan o'r tir ers cyn 1 Gorffennaf 1948 (gweler adran 1).

Mae adeiladau rhestredig yn cael eu graddio i adlewyrchu eu pwysigrwydd pensaernïol a hanesyddol cymharol fel a ganlyn: Gradd I (ansawdd eithriadol), Gradd II* (adeiladau arbennig o bwysig o fwy na diddordeb arbennig) a Gradd II (adeiladau o ddiddordeb arbennig sy'n gwarantu pob ymdrech i'w cadw).

### Rheoli gwaith sy'n effeithio ar adeiladau rhestredig:

Adran 9(1) gweithredu neu achosi dymchweliad adeilad rhestredig neu waith i addasu neu ymestyn adeilad rhestredig sy'n effeithio ar ei ddiddordeb arbennig, heb gydsyniad adeilad rhestredig.

Adran 9(2) methu â chydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth gydsyniad adeilad rhestredig.

Mae'r troseddau uchod yn berthnasol hefyd i adeilad sy'n destun hysbysiad cadw adeilad a gyhoeddwyd dan adran 3 Deddf 1990.

Mae'r troseddau dan adran 9 yn droseddau neillffordd. Mae person a euogfarnwyd o drosedd dan adran 9 yn atebol:

(a) ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na £20,000 (neu i ddirwy ddiderfyn mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*) neu uchafswm o 6 mis o garchar neu'r ddau; neu

(b) ar dditiad i ddirwy neu uchafswm o 2 flynedd o garchar neu'r ddau.

(gweler adran 9(4))

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Mae'r ddwy drosedd yn hysbysadwy - Cod y Swyddfa Gartref 94 Deddfau Cynllunio.

**Methu â chydymffurfio â hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig:**

Adran 43(2) methu â chydymffurfio â'r camau sy'n ofynnol gan hysbysiad gorfodi adeilad rhestredig ar ôl i'r cyfnod cydymffurfio ddod i ben, mae perchennog presennol y tir dan sylw yn atebol. Gall y perchennog gael ei ddyfarnu'n euog o ail drosedd a throseddau dilynol os oes methiant parhaus i gydymffurfio.

Mae'r drosedd dan adran 43(2) yn drosedd neillffordd. Mae person a euogfarnwyd o drosedd dan yr adran hon yn atebol:

(a) ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na £20,000 (neu i ddirwy diderfyn mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*); neu

(b) ar dditiad i ddirwy.

(gweler adran 43(5)).

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Trosedd hysbysadwy – Cod y Swyddfa Gartref 94 Deddfau Cynllunio.

**Difrod i adeilad rhestredig:**

Adran 59(1) gyda'r bwriad o achosi difrod i adeilad rhestredig, mae person perthnasol yn gwneud neu'n caniatáu gwneud unrhyw weithred sy'n achosi neu'n debygol o arwain at ddifrod i'r adeilad.

'Mae 'person perthnasol' yn rhywun, ac eithrio ar gyfer y ddarpariaeth, y caniateir iddo wneud neu ganiatáu'r weithred dan sylw h.y. perchennog neu feddiannydd yr adeilad rhestredig.

Mae'r drosedd dan adran 59(1) yn drosedd ynadol yn unig. O'i euogfarnu, mae unigolyn yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3.

Adran 59(4) os yw wedi ei gael yn euog dan adran 59(1) y bydd person yn methu â chymryd camau rhesymol o'r fath a all fod yn angenrheidiol i atal unrhyw ddifrod neu

ddifrod pellach sy'n deillio o'r drosedd, bydd yn euog o drosedd bellach dan yr is-adran hon.

Mae'r drosedd dan adran 59(4) eto yn drosedd ynadol yn unig. O'i euogfarnu, mae unigolyn yn agored i ddirwy heb fod yn uwch nag un rhan o ddeg o lefel 3 am bob dydd y mae'r methiant yn parhau.

Ddim yn hysbysadwy. Cofnodi fel digwyddiad.

## <u>Ardaloedd Cadwraeth</u>

**Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 –**

Dynodir ardaloedd cadwraeth fel arfer gan yr awdurdod cynllunio lleol fel ardaloedd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig y mae cymeriad neu ymddangosiad yr ardal yn ddymunol i'w gadw neu ei wella (gweler adran 69).

Nid yw'n drosedd gwneud gwaith sy'n effeithio ar gymeriad neu ymddangosiad adeilad sydd heb ei restru mewn ardal gadwraeth heb ganiatâd. Fodd bynnag, mae'n drosedd dymchwel adeilad sydd heb ei restru mewn ardal gadwraeth heb ganiatâd cynllunio.

Mae'n werth nodi bod dymchwel adeilad heb ei restru mewn ardal gadwraeth cyn 1 Hydref 2013 yn gofyn am 'gydsyniad ardal gadwraeth' ac roedd methu â chael y cydsyniad hwnnw yn drosedd dan adran 9(1) Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Fodd bynnag, yn dilyn diwygiadau a wnaed gan Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013, o 1 Hydref 2013 nid oes angen cydsyniad ardal gadwraeth mwyach yn Lloegr, yn hytrach, mae wedi'i ddisodli gan yr angen i gael caniatâd cynllunio dan adran 196D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) ar gyfer 'dymchwel perthnasol'. I grynhoi mae hyn yn golygu os oedd angen 'cydsyniad ardal gadwraeth' i ddymchwel adeilad mewn ardal gadwraeth dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, yna nawr bydd angen caniatâd cynllunio arnoch yn hytrach i'w ddymchwel.

**Dymchwel adeiladau sydd heb eu rhestru mewn Ardaloedd Cadwraeth heb ganiatâd cynllunio:**

Mae adran 196D(1) Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu ar gyfer gwneud yn drosedd i berson gyflawni neu achosi neu ganiatáu i waith dymchwel perthnasol gael ei gyflawni heb y caniatâd cynllunio gofynnol.

Dan adran 196D(5) mae person sy'n euog o drosedd dan adran 196D(1) yn agored--

(a) ar euogfarn ddiannod, i garchar am dymor heb fod yn fwy na

12 mis neu ddirwy [gweler isod am y lefel] neu'r ddau;

(b) ar euogfarn ar dditiad, i garchar am dymor heb fod yn hwy na 2 flynedd neu ddirwy neu'r ddau.

(6) Mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd cyn i adran 154(1) Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003 ddod i rym, mae isadran (5)(a) yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriad at 12 mis yn 6 mis.

*(7) Mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd cyn i adran 85(1) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 ddod i rym, mae is-adran (5)(a) yn cael effaith fel pe bai'r cyfeiriad at ddirwy yn gyfeiriad at ddirwy nad oedd yn fwy na £20,000.

(8) Wrth benderfynu ar swm unrhyw ddirwy sydd i'w gosod ar berson sydd wedi'i euogfarnu o drosedd dan yr adran hon, rhaid i'r llys roi sylw yn benodol i unrhyw fudd ariannol sydd wedi cronni, neu yr ymddengys ei fod yn debygol o gronni, i'r person o ganlyniad i'r drosedd.

*DS. Mewn perthynas ag is-adran (7), mae adran 85(1) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 bellach mewn grym ar gyfer troseddau a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015, y gellir gosod dirwy ddiderfyn ar euogfarn ddiannod ar eu cyfer.

Troseddau hysbysadwy – Cod y Swyddfa Gartref 94 Deddfau Cynllunio.

**Methu â chydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth ganiatâd cynllunio i ddymchwel adeilad heb ei restru mewn Ardal Gadwraeth**

Dan adran 196D(2) mae'n drosedd i berson fethu â chydymffurfio ag unrhyw amod neu gyfyngiad sy'n ddarostyngedig i'r caniatâd cynllunio a ganiateir ar gyfer y gwaith dymchwel perthnasol.

Mae'r cosbau uchaf yr un fath â'r hyn a nodir uchod.

Troseddau hysbysadwy – Cod y Swyddfa Gartref 94 Deddfau Cynllunio.

## <u>Henebion Cofrestredig</u>

**Deddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archeolegol 1979 –**

Mae henebion cofrestredig yn safleoedd a ddynodir gan Ysgrifennydd Gwladol Lloegr neu Weinidogion Cymru fel safleoedd archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol. Yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am lunio a chynnal yr amserlen o henebion (gweler adran 1).

**Rheoli gwaith sy'n effeithio ar henebion cofrestredig:**

Adran 2(1) – i weithredu, achosi neu drwyddedu gwaith i heneb gofrestredig heb gydsyniad heneb gofrestredig (a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn Lloegr neu Weinidogion Cymru yng Nghymru)

Adran 2(6) – methu â chydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrth gydsyniad heneb gofrestredig

Mae trosedd dan adran 2 yn drosedd neillffordd. Mae person a euogfarnwyd o drosedd dan yr adran hon yn atebol:

(a) ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol (neu i ddirwy ddiderfyn mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*); neu

(b) ar dditiad i ddirwy.

(gweler adran 2(10))

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Mae'r ddwy drosedd yn hysbysadwy – Mae Cod y Swyddfa Gartref 98/99 hysbysadwy arall yn berthnasol i drosedd dan adran 2(1) a 98/65 hysbysadwy arall am drosedd dan adran 2(6).

**Trosedd difrodi rhai henebion**:

Adran 28(1) yn fwriadol neu'n ddi-hid yn dinistrio neu'n difrodi 'heneb warchodedig' heb esgus cyfreithlon

Diffinnir 'heneb warchodedig' fel heneb gofrestredig ac unrhyw heneb dan berchnogaeth neu warcheidiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, English Heritage, Cadw neu awdurdod lleol drwy rinwedd Deddf 1979.

Mae trosedd dan adran 28(1) yn drosedd neillffordd. Mae person a euogfarnwyd o drosedd dan yr adran hon yn atebol:

(a) ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol (neu i ddirwy ddiderfyn mewn perthynas â throsedd a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*) neu i uchafswm o 6 mis o garchar neu'r ddau; neu

(b) ar dditiad i ddirwy neu uchafswm o 2 flynedd o garchar.

(gweler adran 28(4)).

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Trosedd hysbysadwy – Cod y Swyddfa Gartref 149/58D difrod arall.

**Cyfyngiadau ar y defnydd o ddatgelyddion metel:**

Adran 42(1) defnyddio datgelydd metel mewn 'lle gwarchodedig' heb gydsyniad ysgrifenedig English Heritage neu Cadw

Mae trosedd dan yr is-adran hon yn drosedd ynadol yn unig. O'i euogfarnu, mae unigolyn yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3.

Adran 42(3) tynnu gwrthrych o ddiddordeb archeolegol neu hanesyddol sy'n cael ei ddarganfod drwy ddefnyddio datgelydd metel mewn 'lle gwarchodedig' heb gydsyniad ysgrifenedig English Heritage neu Cadw

Mae trosedd dan yr is-adran hon yn drosedd neillffordd. Mae person a euogfarnwyd o drosedd yn atebol:

(a) ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol (neu i ddirwy ddiderfyn am droseddau a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*); neu

(b) ar dditiad i ddirwy.

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Adran 42(5) –

(a) defnyddio datgelydd metel mewn 'lle gwarchodedig' yn unol â chydsyniad a roddwyd gan English Heritage neu Cadw a methu â chydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrtho;

(b) symud neu fel arall ymdrin ag unrhyw wrthrych a ddarganfyddir drwy ddefnyddio datgelydd metel mewn 'lle gwarchodedig' yn unol â chydsyniad a roddwyd gan English Heritage neu Cadw a methu â chydymffurfio ag amod sydd ynghlwm wrtho.

Mae trosedd dan adran 42(5)(a) yn drosedd ynadol yn unig. Mae’r gosb yr un fath ag am drosedd dan adran 42(1).

Mae trosedd dan adran 42(5)(b) yn drosedd neillffordd. Mae’r gosb yr un fath ag am drosedd dan adran 42(3).

Ystyr ‘lle gwarchodedig’ yw heneb gofrestredig neu unrhyw heneb dan berchenogaeth neu warcheidiaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, English Heritage, Cadw neu awdurdod lleol yn rhinwedd Deddf 1979, neu wedi’i lleoli mewn Ardal o Bwysigrwydd Archeolegol (a ddynodir dan Ddeddf 1979, Rhan II).

Mae’r drosedd dan adran 42(3) yn hysbysadwy – Cod y Swyddfa Gartref 99/99 hysbysadwy arall. Nid yw troseddau eraill dan adran 42 yn hysbysadwy. Cofnodi fel digwyddiad.

## Safleoedd Llongddrylliadau Morol Gwarchodedig

**Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973 –**

**Ardaloedd dan gyfyngiadau:**

Ardal dan gyfyngiadau yw ardal yn nyfroedd y DU a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o amgylch safle llongddrylliad (neu sy’n debygol o gynnwys llongddrylliad) ar neu yng ngwely’r môr ac ar sail pwysigrwydd hanesyddol, archeolegol neu artistig y llong neu unrhyw wrthrychau sydd wedi’u cynnwys neu a oedd wedi’u cynnwys ynddi yn flaenorol, dylai’r safle gael ei warchod rhag ymyrraeth anawdurdodedig (gweler adran 1(1)).

Adran 1(3) cyflawni neu achosi neu ganiatáu i eraill gynnal rhai gweithgareddau penodedig mewn ‘ardal dan gyfyngiadau’ heb drwydded a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gan gynnwys ymyrryd, difrodi neu symud ymaith rhan o long a’i harchwilio. Caiff unrhyw beth a wneir yn groes i amod neu gyfyngiad ar drwydded ei drin fel achos o dorri’r adran hon.

Adran 1(6) rhwystro neu achosi neu ganiatáu i berson gael ei rwystro rhag gwneud unrhyw beth a awdurdodwyd gan drwydded i wneud gweithrediadau deifio neu achub a ganiatawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae troseddau dan adran 1 yn droseddau neillffordd. Mae person a euogfarnwyd o drosedd dan adran 1 yn atebol:

(a) ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na'r swm rhagnodedig [£5,000] (neu i ddirwy ddiderfyn mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*); neu

(b) ar dditiad i ddirwy.

(gweler adran 3(4)).

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012. Mae'r ddwy drosedd yn hysbysadwy – Cod y Swyddfa Gartref 98/65 hysbysadwy arall.

**Ardaloedd gwaharddedig:**

Ardal waharddedig yw ardal a ddynodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o amgylch llongddrylliad sydd yn nyfroedd y DU ac oherwydd unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys ynddo, mae'r llong mewn cyflwr a allai achosi perygl i fywyd neu eiddo ac ar y sail honno dylai gael ei gwarchod rhag ymyrraeth anawdurdodedig (gweler adran 2(1)).

Adran 2(3) Mynd i mewn i ardal waharddedig boed ar yr wyneb neu o dan ddŵr heb awdurdod ysgrifenedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'r drosedd dan adran 2 yn drosedd neillffordd. Mae person a euogfarnwyd o drosedd dan yr adran hon yn atebol:

(c) ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na'r swm rhagnodedig [£5,000] (neu i ddirwy ddiderfyn mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*); neu

(d) ar dditiad i ddirwy.

(gweler adran 3(4)).

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Trosedd hysbysadwy – Cod y Swyddfa Gartref 98/65 hysbysadwy arall

## Diogelu Olion Milwrol

**Deddf Diogelu Olion Milwrol 1986 –**

Mae’r ddeddf hon yn gwarchod malurion awyrennau milwrol sydd wedi cwympo a llongddrylliadau milwrol dynodedig. Mae dau fath o amddiffyniad o dan y ddeddf a roddir (a) Lleoedd gwarchodedig (gweler adran 1(6)); a (b) Safleoedd a reolir (gweler adran 1).

**Lleoedd Gwarchodedig:**

Mae awyrennau milwrol (y DU neu wledydd eraill) a gwympodd yn y DU, yn nyfroedd tiriogaethol y DU neu yn nyfroedd dan reolaeth y DU yn cael eu gwarchod yn awtomatig dan y ddeddf. Mae malurion o awyrennau milwrol y DU hefyd yn cael eu gwarchod dan y ddeddf os ydynt mewn mannau eraill yn y byd.

Mae llongddrylliadau (llongau) yn gofyn am ddynodiad penodol dan y ddeddf er mwyn sicrhau y gall fod yn lle gwarchodedig. Mae hyn yn berthnasol yn unig i longau a suddodd ar ôl 14 Awst 1914. Dynodir y rhain drwy orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol a wneir gan offeryn statudol.

Adran 2(1)(b) mewn perthynas â lle gwarchodedig, mae’n drosedd i berson ymyrryd ag olion, eu difrodi, eu symud neu eu datgladdu; mynd i mewn drwy unrhyw agorfa neu agoriad arall yn unrhyw un o’r olion sy’n amgáu unrhyw ran o du mewn awyren neu long (neu achosi neu ganiatáu i rywun arall wneud hynny) (gweler is-adran (2)). Mae’n rhaid i’r person gredu neu fod â sail resymol dros amau bod y lle yn cynnwys olion awyren neu long sydd wedi cwympo, suddo neu wedi mynd yn sownd yn ystod gwasanaeth milwrol.

Adran 2(1)(c) mewn perthynas â lle gwarchodedig, mae’n drosedd i gymryd rhan yn fwriadol, neu achosi neu ganiatáu i berson arall gymryd rhan, mewn gweithred cloddio neu blymio neu achub sydd wedi’i wahardd gan is-adran (3)(b) ac (c). Hynny yw, (b) os caiff ei gyflawni at ddiben gwneud rhywbeth sy’n gyfystyr â neu sy’n debygol o olygu mynd yn groes i is-adran (2) (gweler uchod); ac (c) yn achos cloddiad, os caiff ei wneud at ddiben darganfod a oes unrhyw le yn y DU neu yn nyfroedd y DU yn cynnwys unrhyw olion awyren neu long sydd wedi cwympo, suddo neu wedi mynd yn sownd yn ystod gwasanaeth milwrol.

Adran 2(1)(d) mae’n drosedd hefyd i ddefnyddio’n fwriadol, neu achosi neu ganiatáu i eraill ddefnyddio unrhyw offer mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw gloddiad neu weithrediad o’r fath.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ganiatáu trwydded sy’n caniatáu’r gweithredoedd gwaharddedig hyn (adran 4).

**Safleoedd a reolir:**

Mae angen dynodiad penodol yn ôl lleoliad ar safleoedd a reolir a hynny gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Maen nhw’n safleoedd (o fewn y DU, dyfroedd tiriogaethol neu ryngwladol y DU) sy’n ymddangos iddo ef/iddi hi eu bod yn cynnwys olion unrhyw awyren filwrol sydd wedi cwympo neu long filwrol (y DU neu fel arall) sydd wedi suddo neu wedi mynd yn sownd yn y

200 mlynedd diwethaf. Dim ond malurion awyrennau a llongau milwrol y DU y gellir eu dynodi fel safleoedd a reolir os ydynt mewn dyfroedd rhyngwladol.

Adran 2(1)(a) mewn perthynas â safle a reolir, mae'n drosedd i ymyrryd ag olion, eu difrodi, eu symud neu eu datgladdu; mynd i mewn drwy unrhyw agorfa neu agoriad arall yn unrhyw un o'r olion sy'n amgáu unrhyw ran o du mewn awyren neu long (neu achosi neu ganiatáu i rywun arall wneud hynny) (gweler is-adran (2)).

Adran 2(1)(c) mewn perthynas â safle a reolir, mae'n drosedd i berson gymryd rhan yn fwriadol, neu achosi neu ganiatáu i un arall gymryd rhan, mewn gweithred cloddio neu blymio neu achubiaeth sydd wedi'i wahardd gan is-adran (3)(a) ac (c). Hynny yw (a) os caiff ei gyflawni ar safle a reolir at ddiben ymchwilio neu gofnodi manylion unrhyw olion o awyren neu long yn y lle hwnnw; ac (c) yn achos cloddiad, os caiff ei wneud at ddiben darganfod a oes unrhyw le yn y DU neu yn nyfroedd y DU yn cynnwys unrhyw olion awyren neu long sydd wedi cwympo, suddo neu wedi mynd yn sownd yn ystod gwasanaeth milwrol.

Adran 2(1)(d) mae'n drosedd hefyd mewn safle a reolir i ddefnyddio'n fwriadol, neu achosi neu ganiatáu i un arall ddefnyddio, unrhyw offer mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw gloddiad neu weithrediad o'r fath.

Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ganiatáu trwydded sy'n caniatáu'r gweithredoedd gwaharddedig hyn (adran 4).

Mae trosedd dan adran 2 yn drosedd neillffordd. Mae person a euogfarnwyd o unrhyw drosedd dan yr adran yn atebol:

(a) ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol (neu i ddirwy ddiderfyn mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*); neu

(b) ar dditiad i ddirwy

(gweler adran 2(7)).

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Pob trosedd hysbysadwy – Cod y Swyddfa Gartref 99/99 hysbysadwy eraill.

## Troseddau treftadaeth penodol eraill nad ydynt yn gysylltiedig â dynodiadau penodol

### Deddf Llongau Masnach 1995

Prif dasg Derbynnydd Llongddrylliad yw prosesu adroddiadau a dderbynnir o longddrylliad er budd yr achubwr a'r perchennog. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i

berchnogaeth, cysylltu â'r darganfyddwr a'r perchennog a phartïon eraill sydd â diddordeb fel archeolegwyr ac amgueddfeydd.

Mae'n rhaid adrodd am unrhyw ddeunydd llongddrylliad a ganfyddir yn nyfroedd tiriogaethol y DU neu y tu allan i'r DU ond a gludir i ddyfroedd tiriogaethol y DU, i'r Derbynnydd Llongddrylliadau dan adran 236 Deddf Llongau Masnach 1995. Mae'n rhaid adrodd am holl ddeunydd y llongddrylliad waeth pa mor fach neu ddibwys mae'n ymddangos. Gall y math o ddeunydd a adroddir gynnwys, er enghraifft, portyllau, clychau, platiau, gosodiadau a ffitiadau, bwndeli o bren, gorchuddion agorfeydd a deunydd archeolegol fel potiau canoloesol, darnau aur, canonau ac ati a gesglir yn aml o longddrylliadau.

Mae Adran 236(1) yn darparu, os bydd unrhyw berson yn canfod llongddrylliad neu'n cymryd meddiant o unrhyw longddrylliad yn nyfroedd y DU neu y tu allan i ddyfroedd y DU ac yn dod ag ef o fewn y dyfroedd hynny mae'n rhaid iddo –

(a) os mai ef yw perchennog y llongddrylliad dan sylw, dylai hysbysu'r derbynnydd gan ddweud ei fod wedi canfod neu gymryd meddiant ohono a disgrifio'r marciau y gellir eu defnyddio i adnabod y llongddrylliad;
(b) os nad ef yw'r perchennog, dylai hysbysu'r derbynnydd ei fod wedi canfod neu gymryd meddiant ohono, ac yn unol â chyfarwyddwyd gan y derbynnydd, dylai naill ai ei gadw yn unol â gorchymyn y derbynwyr neu ei drosglwyddo i'r derbynnydd.

Mae'n drosedd dan adran 236(2) i fethu â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon i roi hysbysiad ac mae person a euogfarnwyd o drosedd dan yr adran hon yn atebol ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol. Ymhellach, os nad yw'n berchennog y llongddrylliad, mae'n rhaid iddo fforffedu unrhyw hawliad iddo a bod yn atebol i dalu dwywaith gwerth y llongddrylliad i'r perchennog, os caiff ei hawlio, neu i'r person sydd â hawl i'r llongddrylliad os nad yw'n cael ei hawlio.

Deddf Llongau Masnach 1995 ynghyd â Deddf Diogelu Llongddrylliadau 1973 a Deddf Diogelu Olion Milwrol 1986 yw'r tair prif ddeddf sy'n berthnasol i longddrylliadau.

Ddim yn hysbysadwy. Cofnodi fel digwyddiad.

**Deddf Delio mewn Gwrthrychau Diwylliannol (Troseddau) 2003 –**

**Symud a masnachu gwrthrychau o ddiddordeb hanesyddol, pensaernïol neu archeolegol heb awdurdod o adeiladau hanesyddol neu safleoedd o ddiddordeb archeolegol:**

Adran 1 delio yn anonest mewn gwrthrych diwylliannol wedi'i lygru gan wybod neu gredu bod y gwrthrych wedi'i lygru

Diffinnir 'gwrthrych diwylliannol' fel gwrthrych sydd o ddiddordeb hanesyddol, pensaernïol neu archeolegol.

Mae gwrthrych diwylliannol yn cael ei 'lygru' os yw unigolyn yn symud ymaith (yn cynnwys cloddio) y gwrthrych ar ôl (30 Rhagfyr 2003) o adeilad, strwythur neu heneb o ddiddordeb hanesyddol, pensaernïol neu archeolegol yn y DU neu mewn man arall. Mae'n rhaid i'r gwaith symud neu gloddio fod yn gyfystyr â throsedd naill ai dan gyfraith y DU neu o dan gyfraith dramor (gweler adran 2).

Mae person yn 'delio' os yw'n caffael, gwaredu, mewnforio neu allforio gwrthrych neu'n gwneud trefniadau i rywun arall wneud y gweithredoedd hynny (gweler adran 3).

Mae trosedd dan adran 1 yn drosedd neillffordd. Mae person a euogfarnwyd o drosedd dan yr adran hon yn atebol:

(a) ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na'r uchafswm statudol (neu i ddirwy ddiderfyn mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*), neu i uchafswm o 6 mis o garchar neu'r ddau; neu

(b) ar dditiad i ddirwy, neu i uchafswm o 7 mlynedd o garchar neu'r ddau.

(gweler adran 1(3)).

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Trosedd hysbysadwy – Cod y Swyddfa Gartref 98/99 hysbysadwy arall.

**Deddf Trysor 1996** –

Adran 8(3) mae darganfyddwr gwrthrych y cred sy'n drysor, neu y mae ganddo sail resymol dros gredu ei fod yn drysor, yn methu â hysbysu crwner yr ardal dan sylw o fewn 14 diwrnod i'r darganfyddiad.

Diffinnir 'trysor' yn adran 1 o'r Ddeddf.

Mae trosedd dan adran 8(3) yn drosedd ynadol yn unig. Mae person a euogfarnwyd o drosedd dan yr adran hon yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 5 (neu i ddirwy ddiderfyn mewn perthynas â throseddau a gyflawnwyd ar ôl 12 Mawrth 2015*) neu i uchafswm o 3 mis o garchar neu'r ddau.

*Adran 85(1), (2) a (4) Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012.

Ddim yn hysbysadwy. Cofnodi fel digwyddiad.

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 –**

Os bu achos o dorri rheolaeth gynllunio (datblygu heb ganiatâd cynllunio) neu achos o fynd yn groes i amod sydd ynghlwm wrth gydsyniad cynllunio, mae Deddf 1990 yn cynnwys nifer o ddarpariaethau gorfodi y gall yr awdurdod cynllunio lleol eu harfer er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth.

Mae'n werth nodi yma y gallai'r pwerau gorfodi hyn fod yn berthnasol pan fo achos o dorri deddfwriaeth treftadaeth hefyd yn achos o dorri rheolaeth gynllunio dan Ddeddf 1990.

Ymhellach fel y crybwyllwyd dan Ardaloedd Cadwraeth, mae'n drosedd dan y Ddeddf hon i ddymchwel adeilad sydd heb ei restru mewn ardal gadwraeth heb ganiatâd cynllunio neu i fethu â chydymffurfio ag amodau sydd ynghlwm wrth roi caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith dymchwel o'r fath.